O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1849(Cy. 180)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "y Rheoliad", sef Rheoliad (EC) Rhif 1924/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar honiadau am faethiad ac iechyd a wneir ar fwydydd (OJ Rhif L12, 18.1.2007, t.3), a geir yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2611). Effaith y diwygiad yw bod cyfeiriad at y Rheoliad yn O.S. 2007/2611 bellach yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau a wneir yn y dyfodol i'w Atodiad, sy'n cynnwys y rhestr o honiadau a awdurdodir am faethiad ac amodau sy'n ymwneud â'u defnyddio (rheoliad 3).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1849(Cy. 180)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed *19 Gorffennaf 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *21 Gorffennaf 2010*

Yn dod i rym *1 Hydref 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e) ac (f), 17(2), 26(1)(a) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), fel y'u darllenir ynghyd â pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd iddynt gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli cyfeiriadau at yr Atodiad i'r offeryn UE a grybwyllwyd yn rheoliad 3 fel cyfeiriadau at yr Atodiad hwnnw fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd.

(**1**) 1990 p.16. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r "*Ministers*" i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28) a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**2**) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006 p.51).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, ac yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**1**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 1 Hydref 2010.

Diwygio Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007

2. Diwygir Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007(**2**) yn unol â rheoliad 3.

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli) yn lle'r diffiniad o "y Rheoliad" rhodder y diffiniad a ganlyn—

> "ystyr "y Rheoliad" ("*the Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1924/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar honiadau am faethiad ac iechyd a wneir ar fwydydd gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau i Atodiad y Rheoliad hwnnw a gaiff eu gwneud o bryd i'w gilydd(**3**).".

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

19 Gorffennaf 2010

(**1**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468 mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu – Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

(**2**) O.S. 2007/2611 (Cy.222).

(**3**) Gosodir testun cywir llawn y Rheoliad hwn mewn Corigendwm (OJ Rhif L12, 18.1.2007, t.3). Cafodd y Rheoliad ei ddiwygio ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 116/2010 (OJ Rhif L37, 10.02.2010, t.16).